

Cyngor Cymuned Bro Machno

www.cyngorbromachno.org

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar **nos Iau, 18fed o Fawrth 2021** am 7.30 trwy gyfrwng ZOOM

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Eryl Owain, Eluned McFadden, Geraint Thomas, Claire Roberts, Dylan Davies, Colin Jones a'r Cyngorydd Sir, Wyn Ellis Jones. Ymddiheuriadau gan Eifion Davies a Ceri Phillips.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 28 Ionawr 2021 fel rhai cywir, Colin Jones yn cynnig a Dylan Davies yn eilio.

Materion yn codi:

Toiledau: Wedi cyflwyno darlleniad diweddar o'r meter, talwyd bil o £14.15 i Npower.

Cadarnhawyd bod y toiledau wedi eu cau yn unol â'r rheoliadau Cofid. Penderfynwyd ail-agor pan fydd yr amgylchiadau'n caniatáu.

Ni chafwyd gwybodaeth bellach gan y Cyngor Sir am y paneli solar. Penderfynwyd cysylltu eto fel mater o frys.

Cytunwyd i gais gan berchennog y tir i ddymchwel rhan o wal derfyn rhwng y toiledau a'r cae sydd rhwng y toiledau a Than-y-bryn.

Penderfynwyd cyfrannu £144 (3 mis @ £48) tuag at Neuadd Tŷn-y-porth fel cydnabyddiaeth o'r gwaith glanhau. Penderfynwyd diolch i Gareth Wyn Griffiths am glirio'r ystorf a gosod cwpwrdd yno.

Materion ffyrdd: Cadarnhawyd bod gwaith atgyweirio wedi digwydd ar ochrau ffordd Tŷ Mawr.

Ni chafwyd ateb gan y Cyngor Sir o ran problemau llifogydd a dŵr ar y ffyrdd ger Park Hill, ar Ffordd 'Sendy a ger Gadlas Ddol.

Derbyniwyd nifer o gwynion am gyflwr ffyrdd, yn arbennig y ffordd rhwng Groesffordd a Fron Olau a ffordd 'Sendy. Cytunwyd bod angen arwydd cyfyngiad cyflymdra ar gyfer cerbydau dod i lawr i gyfeiriad Fron Olau.

Penderfynwyd gwneud cais am gyfarfod ar y safle efo swyddog o'r Cyngor Sir i drafod y materion hyn.

Minutes of a meeting held on **Thursday, 18th March 2021** at 7.30 via ZOOM

Present: Dafydd Gwyndaf (Chair), Eryl Owain, Eluned McFadden, Geraint Thomas, Claire Roberts, Dylan Davies, Colin Jones and County Councillor, Wyn Ellis Jones. Apologies from Eifion Davies and Ceri Phillips.

Minutes: The minutes of the 28 January 2021 meeting were accepted as correct, Colin Jones proposing and Dylan Davies seconding.

Matters arising:

Toilets: After submitting a meter reading, an Npower bill for £14.15 was paid.

It was confirmed that the toilets had been closed in accordance with the Covid regulations. It has been decided to re-open them when circumstances permit.

No further information was received from the County Council about the solar panels. It was resolved to contact them again as a matter of urgency.

Agreement was given to an application by the landowner to demolish part of a boundary wall between the toilets and the field between the toilets and Tan-y-bryn.

It was decided to contribute £144 (3 months @ £48) towards Tyn-y-porth Hall in recognition of the cleaning. It was decided to thank Gareth Wyn Griffiths for clearing the store and installing a cupboard there.

Road: It was confirmed that repairs had taken place to the sides of the Tŷ Mawr road.

No response was received from the County Council regarding flooding and water problems on the roads near Park Hill, on 'Sendy Road and near Gadlas Ddol.

A number of complaints were received about the condition of roads, particularly the road between Groesffordd and Fron Olau and 'Sendy road. It was agreed that a speed restriction sign was required for vehicles coming down in the direction of Fron Olau.

It was resolved to request an on-site meeting with an officer of the County Council to discuss these issues.

Maes parcio'r Machno: Mynegwyd pryder unwaith eto am gyflwr maes parcio'r Machno. Roedd y Cynghorydd Wyn Jones o'r farn na fyddai Asiantaeth yr Amgylchfyd yn ymyrryd ond y byddai'n trafod ymhellach efo swyddogion y Parc Cenedlaethol a'r Cyngor Sir i weld a oes unrhyw gamau y gellid eu cymryd.

Cwt Hers: Cadarnhawyd bod y goriadau wedi eu trosglwyddo i Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa.

Sgipiau Cymunedol: Cytunodd y Cyngor Sir eu bod wedi gwneud camgymeriad yn danfon dau fil ar gyfer Cwm. Talwyd bil o £528, sef £264 yr un am y ddau sgip i Penmachno a Cwm.

Difrod i giât yr Eglwys: Penderfynwyd derbyn pris £600 + TAW gan Gerallt Jones, Pentrefoelas. Mae'r cwmni sy'n berchen y lori achosodd y difrod yn barod i dalu'r swm hwn.

Cŵn yn baeddu: Nododd y Cynghorydd Wyn Jones fod rheol y dylai cŵn fod ar dennyn ar ffyrdd o fewn ardal cyfyngiad 40 MyrA. Dywedodd Dafydd Gwyndaf ei fod yn deal fod y Cyngor Sir wedi cytuno i gais gan aelod o'r cyhoedd i ddarparu biniau baw cŵn ar gyfer Cwm Penmachno. Penderfynwyd gofyn eto am arwydd *Dim Cŵn* i'w osod ger y brif fynyddfa i gae chwarae Penmachno.

Materion Ariannol:

Nodwyd bod £12,213.42 yn y banc ond y bydd costau sylweddol o ran atgyweirio wal Mynwent Arwelfa. Cadarnhawyd fod Dafydd Gwyndaf, Eryl Owain ac Eifion Davies wedi eu hawdurdodi i arwyddo sieciau. Talwyd y biliau canlynol: John Burton - £360 am waith ar y llwybrau; Cyngor Sir Conwy - £528 sgipiau cymunedol; Eglwys Unedig Penmachno - £120 llogi'r festri; Npower - £14.15 trydan i'r toiledau; O.G. Evans - £1500 torri gwair yn y mynwentydd; Clwb Peldroed Machno - £150; y Neuadd Goffa - £350.

Materion Cynllunio:

Nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio i'w hystyried.

Gohebiaeth: Derbyniwyd ceisiadau am gymorth ariannol gan Ysgol Penmachno, Yr Urdd a Mudiad y Ffermwyr Ifanc. Penderfynwyd cyfrannu £200 tuag at Ysgol Penmachno a £50 yr un i'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc.

Torri Llwybrau: Nid yw John Burton am barhau i dorri llwybrau. Penderfynwyd hysbysebu am geisiadau am y gwaith.

Machno car park: Concern was again expressed about the state of the Machno car park. Councillor Wyn Jones considered that the Environment Agency would not intervene but would discuss further with National Park officers and the County Council to see if there were any steps that could be taken.

Cwt Hers: It was confirmed that the keys had been passed on to the Trustees of the Memorial Hall.

Community Skips: The County Council agreed that they had made an error sending two bills for Cwm. A bill of £528, (£264 each) was paid for both skips: Penmachno and Cwm.

Damage to the Church gate: It was decided to accept the price of £600 + VAT from Gerallt Jones, Pentrefoelas. The company that owns the lorry that caused the damage is prepared to pay this amount.

Dog fouling: Councillor Wyn Jones noted that there was a rule that dogs should be on a lead on roads within the 40mph restriction area. Dafydd Gwyndaf said that he understood that the County Council had agreed to a request from a member of the public to provide dog fouling bins for Cwm Penmachno. It was resolved to ask again for a *No Dogs* sign to be placed near the main entrance to Penmachno playing field.

Finance:

It was noted that there was £12,213.42 in the bank but that there will be significant costs in repairing the wall of Arwelfa Cemetery. It was confirmed that Dafydd Gwyndaf, Eryl Owain and Eifion Davies were authorised to sign cheques. The following bills were paid: John Burton - £360 for works to the footpaths; Conwy County Council - £528 community skips; Penmachno United Church - £120 vestry hire; Npower - £14.15 electricity for the toilets; O.G. Evans - £1500 grass cutting in the cemeteries; Machno Football Club - £150; Memorial Hall - £350.

Planning Issues:

There were no planning applications to consider.

Correspondence: Applications for financial support were received from Ysgol Penmachno, The Urdd and the Young Farmers. It was decided to contribute £200 towards Penmachno School and £50 each to the Urdd and the Young Farmers.

Clearing Footpaths: John Burton does not want to continue clearing footpaths. It was decided to advertise for applicants for the job.

Materion eraill:

Mynwent Arwelfa: Yn dilyn dymchweliad darn tua deg metr o hyd o wal waelod Mynwent Arwelfa, cadarnhawyd bod tri wedi cytuno i gyflwyno pris am y gwaith. Cyfarfu dirprwyaeth o'r Cyngor ag un eisoes ac mae trefniadau i gyfarfod y ddau arall.

Cadarnhawyd y bydd O.G. Evans yn parhau â'r gwaith o dorri gwair yn y mynwentydd ond bydd angen trafod telerau gydag ef.

Cerrig Sarn: Adroddwyd bod rhai o'r cerrig dros afon Machno (oddi ar ffordd Hafod Dwyrdd) wedi eu symud gan y lli. Penderfynwyd holi'r Cyngor Sir a'r Parc Cenedlaethol ond nodwyd hefyd ei bod yn bosib y bydd gwirfoddolwyr lleol yn delio â'r mater.

Cyfraniad er cof: Penderfynwyd cyfrannu £100 tuag at cronfa i gefnogi elusennau er cof am Elfed Williams. Adroddwyd nad oedd y teulu yn dymuno derbyn taliad cyflog terfynol oedd yn ddyledus iddo.

Penodi Clerc: Derbyniwyd cais gan Daniel Tomos, Benar am y swydd o glerc. Penderfynwyd cynnig y swydd iddo i ddechrau ar 1 Mai ar gyflog o £1200 y flwyddyn, i'w adolygu ymhen blwyddyn. Penderfynwyd cynnig prynu cyfrifiadur ar gyfer gwaith y cyngor neu i gyfrannu at ddefnydd o gyfrifiadur personol.

Other matters:

Arwelfa Cemetery: Following the demolition of a piece approximately ten metres long from the bottom of Arwelfa Cemetery wall, it was confirmed that three had agreed to submit a quote for the work. A delegation from the Council have already met one and there are arrangements to meet the other two.

It has been confirmed that O.G. Evans will continue the work of cutting the grass in the cemeteries but terms will need to be negotiated with him.

Sarn Stones: It was reported that some of the stones across the Machno river (off the Hafod Dwyrdd road) had moved by the heavy flow of water. It was decided to ask the County Council and the National Park but it was also noted that local volunteers might deal with the issue.

Donations in memory: It was decided to donate £100 towards a fund to support charities in memory of Elfed Williams. It was reported that the family did not wish to receive the final salary payment due to him.

Appointment of Clerk: An application was received from Daniel Tomos, Benar for the post of clerk. It was decided to offer him the post to start on 1 May at a salary of £1200 per annum, to be reviewed in a year's time. It was decided to offer to purchase a computer for council work or to contribute to the use of his own computer.